NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Haint newyddenedigol: gwrthfiotigau ar gyfer atal a thrin

20 Ebrill 2021

## Atal a thrin heintiau bacterol mewn babanod newyddanedig

Gall heintiau bacterol fod yn ddifrifol i fabanod newydd-anedig, yn enwedig os na chânt eu trin yn gyflym. Mae mwy o risg y bydd rhai babanod (gan gynnwys babanod yn y groth) yn datblygu haint ac angen gofal a monitro ychwanegol arnynt. Mae'n bwysig hefyd i gymryd y camau iawn er mwyn atal a thrin heintiau i bob mam a'i babi, cyn iddo gael ei eni ac ar ôl hynny.

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i deuluoedd gyda babanod newydd-anedig drwy sicrhau'r canlynol:

- mae ffyrdd gwell o atal heintiau, yn enwedig mewn babanod mewn perygl, yn golygu y bydd llai o fabanod yn mynd yn sâl
- caiff arwyddion o haint bacterol eu nodi'n gynt er mwyn osgoi oedi mewn rhoi triniaethau
- caiff gwrthfiotigau eu defnyddio dim ond pan mae wir eu hangen - efallai na fyddant yn gweithio cystal yn y dyfodol.

Mae a wnelo'r canllaw hwn â heintiau sy'n cael eu hachosi gan facteria ac nid yw'n cynnwys heintiau feirysol.

## Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Dylent hefyd wneud y canlynol:

- ceisio rhoi amser i chi feddwl a gwneud dewisiadau bob amser am driniaethau i chi a'ch babi, ond mewn achos o argyfwng, ni fydd hyn yn bosibl bob tro

- esbonio beth sydd ynghlwm, a pham, os ydynt yn cynnig gwrthfiotigau i chi neu'ch babi er mwyn atal haint
- gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod â phwy i gysylltu, a sut i gysylltu â nhw, os ydych chi'n poeni y gallai fod gan eich babi haint ar ôl mynd adref.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Ceir rhagor o wybodaeth am heintiau newyddenedigol ar wefan y GIG.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chymorth i chi.

- Bliss, 0500 618140
- Group B Strep Support, 01444 416176
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant (NCT), 0300 330 0700
- Y Rhwydwaith Cenedlaethol Bwydo ar y Fron, 0300 100 0212 (sy'n cael ei weithredu gyda Chymdeithas Mamau sy'n Bwydo ar y Fron)

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Er mwyn rhannu profiad am ofal a gawsoch, cysylltwch â'ch tîm Healthwatch lleol

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â rhieni a gofalwyr babanod yr oedd haint bacterol wedi effeithio arnynt, a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9302-4